PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE - TELERAU AC AMODAU AELODAETH

1. DEHONGLIAD

Parc Chwaraeon Bae Abertawe (SBSP) yw'r hunaniaeth ymbarél ar gyfer y cyfleusterau chwaraeon wedi'u lleoli yn Lôn Sgeti, Abertawe, SA2 8QB sy'n cynnwys:

- Pwll Cenedlaethol Cymru Prifysgol Abertawe
- Canolfan Chwaraeon Prifysgol Abertawe
- Canolfan Hoci ac Athletau Abertawe

Mae **SBSP** wedi cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio'n bennaf ar gyfer brandio a marchnata safle Lôn Sgeti, gan alluogi'r cyfleusterau a restrir i ddefnyddio dull gweithredu ar y cyd i wella taith y cwsmer wrth hyrwyddo effeithlonrwydd.

Bydd y brand **SBSP** yn cael ei ddefnyddio ar lwyfannau ffisegol a digidol gan gynnwys arwyddion, y cyfryngau print, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd y llwyfannau hyn yn adnodd a rennir i'r holl gyfleusterau perthnasol.

Tra bydd **SBSP** yn datblygu'n brif hunaniaeth, a'r unig un ar gyfer safle Lôn Sgeti, nid yw'n disodli'n uniongyrchol hunaniaethau presennol y cyfleusterau unigol ac nid yw'n creu unrhyw berthynas gytundebol arall rhwng cyfleusterau nac yn newid y statws cyfreithiol neu berchnogaeth.

Mae cytundeb i ddatblygu a gweithredu'r dull SBSP wedi'i geisio gan Uwch Dîm Arwain Prifysgol Abertawe, Cabinet Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru.

Mae pob cyfeiriad at **'chi, 'eich' neu 'Aelod(au)'** yn golygu aelod presennol o SBSP.

Mae pob cyfeiriad at **'ni' ac 'ein'** yn gyfeiriadau at Brifysgol Abertawe **(SPS)** a/neu Bwll Cenedlaethol Cymru Abertawe **(WNPS)**.

Os ydych yn aelod o Chwaraeon Abertawe, mae eich aelodaeth gyda Phrifysgol Abertawe. Os oes gennych aelodaeth nofio, mae eich aelodaeth gydag WNPS. Bydd Atodlen Aelodaeth SBSP yn eich helpu i adnabod gyda phwy mae eich aelodaeth.

Golyga'r **'Cytundeb'** y Ffurflen Gais, ymwadiad meddygol, y Ffi Aelodaeth, y telerau ac amodau hyn a rheolau cyfleusterau unigol gan gynnwys rhai WNPS, Campfeydd SPS, Neuadd a Chyrtiau Chwaraeon SPS, a'r Ganolfan Hoci ac Athletau.

Golyga'r **'Ffurflen Gais'** y ffurflen gais ar gyfer aelodaeth neu ddefnydd o'r cyfleusterau yn SBSP.

Golyga'r **'Ffi Aelodaeth'** y ffioedd sy'n daladwy am eich categori aelodaeth a amlinellir yn eich Ffurflen Gais ar gyfer defnydd o'r cyfleusterau yn SBSP.

'Cwsmer Misol' yw'r rheiny sydd wedi ymrwymo i gynllun talu misol drwy Ddebyd Uniongyrchol neu Gyflogres Staff.

Mae **'Didyniad Cyflogres'** yn golygu cynllun didynnu o gyflog, Prifysgol Abertawe sydd ar gael i staff Prifysgol Abertawe.

'Cwsmer Rhagdaledig' yw person sy'n talu'r Ffi Aelodaeth ymlaen llaw, yn flynyddol.

Golyga **'Atodlen Aelodaeth SBSP'** yr atodlen ynghlwm wrth y Telerau ac Amodau hyn sy'n amlinellu'r cynlluniau aelodaeth gwahanol ar gael.

Cyfeiria'r **'Rheolwr'** at Reolwr WNPS neu SPS ar y pryd ac mae'n cynnwys unrhyw weithiwr arall a all fod yn gweithredu ar ran y rheolwr.

2. **CYCHWYN, TYMOR CYCHWYNNOL AC AELODAETH BARHAUS**
   Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y dyddiad ymuno, yn dilyn derbyn eich Ffurflen Gais a bydd mewn grym am y tymor cychwynnol yn amodol ar derfynu cynharach a amlinellir yn yr amodau hyn. Bydd aelodaeth a delir drwy daliadau misol yn parhau'n awtomatig ar ôl y tymor cychwynnol hyd nes y'i terfynir yn unol â'r amodau hyn.

3. CYNLLUNIAU AELODAETH CYFFREDINOL

3.1. Rhestrir y mathau o aelodaeth ar gael yn SBSP yn atodlen 1 (Cynlluniau Aelodaeth SBSP).

3.2. Mae'n bosib y bydd ardaloedd o SBSP ar gau ar gyfer Gwyliau Banc, ymarferion, gwaith cynnal a chadw parhaus a rhaglen arolygu, a all effeithio ar oriau agor. Ni chaniateir i gwsmeriaid ddefnyddio cyfleusterau bob amser pan fydd naill ai WNPS neu SPS yn cynnal digwyddiadau mawr. Bydd WNPS a SPS yn rhoi digon o rybudd am y digwyddiadau hyn, ac ni fydd aelodaeth yn cael ei hymestyn nac iawndal ariannol yn cael ei gynnig.

3.3. Bydd cerdyn aelodaeth SBSP yn cael ei gyflwyno i chi ar ôl i chi danysgrifio, a bydd yn parhau yn eiddo i ni. Os terfynir eich cytundeb am unrhyw reswm, bydd eich cerdyn aelodaeth yn cael ei ddileu.

3.4. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth neu adnewyddu aelodaeth.

3.5. Rhaid i aelodau roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt.

3.6. Rydym yn cadw'r hawl i ddiddymu neu wrthod mynediad i unrhyw gwsmer heb nodi unrhyw reswm ac yn cadw'r hawl i beidio â gwneud unrhyw ad-daliad mewn achosion o'r fath.

CYNIGION AELODAETH ARBENNIG

3.7. Gallwn redeg sawl cynnig aelodaeth arbennig drwy gydol y flwyddyn. Bydd pob cynnig yn ddilys am gyfnod cyfyngedig a fydd yn cael ei nodi yn Nhelerau ac Amodau CYNIGION AELODAETH ARBENNIG PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE. Ar ôl talu am yr aelodaeth ac am hyd y tymor aelodaeth, bydd yr holl Aelodau yn rhwym i'r Telerau ac Amodau yn y brif ddogfen hon, y cytunir iddynt ar ôl talu am bob aelodaeth SBSP.

4. EICH RHWYMEDIGAETHAU

4.1. Bydd yr Aelod yn talu'r Ffi Aelodaeth. Bydd y dull yn cael ei gytuno ar yr adeg y gwneir Cais a gall gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig iddynt): Cwsmer Rhagdaledig neu Gwsmer Misol yn gwneud taliadau mewn rhandaliadau misol drwy Ddebyd Uniongyrchol neu Ddidyniad Cyflogres.

4.2. Bydd yr Aelod yn cydymffurfio'n llawn â'u rhwymedigaethau dan y Cytundeb.

4.3. Dylid defnyddio'r holl gyfarpar a chyfleusterau yn unol â'r holl gyfarwyddiadau defnyddio. Ni ddylid camddefnyddio'r cyfarpar a'r cyfleusterau mewn unrhyw ffordd, a rhaid i chi ymddwyn mewn modd trefnus bob amser heb ymyrryd â defnydd neu fwynhad cwsmer arall o'r cyfleusterau. Dylai defnyddwyr y Gampfa geisio cyngor gan staff y gampfa yn ôl yr angen.

4.4. Lle mae archebu ymlaen llaw yn ofynnol, glynwch at y polisi archebu a chanslo.

5. CANSLO - GENNYCH CHI NEU GENNYM NI

5.1. Ni fydd cwsmeriaid sydd wedi talu ymlaen llaw yn derbyn ad-daliad o'r Ffi Aelodaeth nac unrhyw ran ohoni os hoffent ganslo'r cytundeb yn gynnar, cyn diwedd cyfnod yr aelodaeth a thu allan i'r cyfnod ailfeddwl o 14 diwrnod ar ôl prynu.

5.2. Bydd aelodau sy'n talu'n fisol drwy Ddebyd Uniongyrchol neu Ddidyniad Cyflogres yn cael eu rhwymo gan gontract 12 mis. Ar ôl diwedd y cyfnod 12 mis hwnnw, caiff Aelodau sydd am ganslo eu haelodaeth wneud hynny drwy roi rhybudd 30 diwrnod erbyn y 10fed o bob mis.

5.3. Mae'n ofynnol i aelodau dalu'r nifer lleiaf o gyfnodau Debyd Uniongyrchol neu Gyflogres a nodwyd ar eu Cais, gyda'r un cyntaf yn cael ei dalu ar y dyddiad talu 1af a phob mis wedi hynny. Mae'n rhaid talu'r taliadau, waeth a yw'r aelod wedi defnyddio'r cyfleusterau ai peidio, oni nodir yn wahanol, neu os bodlonir y telerau canslo.

5.4. Mae pob aelodaeth yn agored i gyfnod ailfeddwl o 14 diwrnod, sy'n cychwyn ar ddyddiad y cytundeb cychwynnol. Gall aelodau ganslo pob aelodaeth yn ystod y cyfnod hwn heb ddim cosb. Rhaid rhoi gwybod am eich diben i ganslo naill ai yn ysgrifenedig neu ei reoli'n uniongyrchol â thîm derbynfa SBSP.

6. TERFYNU - GENNYM NI

6.1. Gallwn derfynu eich aelodaeth drwy rybudd ysgrifenedig o 7 diwrnod, neu ar unwaith yn ôl ein doethineb, os:

6.1.1. Ydych yn torri'r cytundeb hwn mewn modd difrifol neu oherwydd mân doriadau mynych; neu

6.1.2. Rydych yn methu â thalu unrhyw swm sy'n ddyledus dan y Cytundeb ar y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus; neu

6.1.3. Rydych yn rhoi manylion y gwyddoch eu bod yn anghywir pan rydych yn ymgeisio am aelodaeth a byddai'r datganiad ffals wedi effeithio'n rhesymol ar ein penderfyniad i ganiatáu eich aelodaeth; neu

6.1.4. Camddefnyddir eich aelodaeth neu eich cerdyn aelodaeth; neu

6.1.5. Rydych yn mynd yn groes i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010; neu

6.1.6. Rydych yn torri'r polisi tri rhybudd ar gyfer canslo archebion; neu

6.1.7. Rydych yn torri cod ymddygiad SBSP.

6.2. Os terfynir eich aelodaeth am unrhyw rai o'r rhesymau a nodir uchod, ni fydd gennych hawl i unrhyw ad-daliad o'r Ffi Aelodaeth.

7. RHEWI AELODAETH

7.1. Gallwn rewi eich aelodaeth gyfredol am gyfnod amhenodol oherwydd sefyllfaoedd y tu hwnt i'n rheolaeth pan fydd rhaid i unrhyw rai o'r cyfleusterau yn SBSP gau. Bydd aelodau'n derbyn o leiaf 24 awr o rybudd ym mhob sefyllfa rewi. Yn ystod y cyfnod dan sylw, ni fydd aelodau'n cael mynediad i SBSP ac ni chodir Ffioedd Aelodaeth. Caiff pob aelodaeth ei dadrewi gan roi o leiaf 10 diwrnod o rybudd i aelodau, ynghyd â'r union ddyddiad pan fydd angen talu'r ffi aelodaeth gyntaf drwy Ddebyd Uniongyrchol neu Ddidyniad Cyflogres.

7.2. Yn ystod y cyfnod 10 diwrnod hwn, caiff Aelodau derfynu eu haelodaeth heb gosb. Os yw Aelod yn dewis terfynu ei aelodaeth y tu allan i'r cyfnod rhybudd o 10 diwrnod a roddwyd, codir y ffi ganslo arferol. Gweler Adran 5.

7.3. Bydd gan bob Aelod yr opsiwn i rewi eu haelodaeth am hyd at dri mis (90 diwrnod) mewn cyfnod 12 mis. Rhaid gwneud pob cais yn ysgrifenedig gyda'r cyfnod wedi'i nodi, ac ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd yr aelodaeth yn cael ei dadrewi. Ni fydd yr aelodaeth yn agored i'r cyfnod terfynu heb ddim ffi o 10 diwrnod gan nad yw wedi'i rhewi gennym ni.

8. ATEBOLRWYDD

8.1. Mae'r holl warantau, amodau a thelerau eraill sydd ymhlyg drwy statud neu gyfraith gwlad, cyn belled ag y bydd y gyfraith yn caniatáu hynny, wedi'u heithrio o'r Cytundeb hwn.

8.2. Nid oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod neu am unrhyw ddifrod neu atebolrwydd rydych yn ei ysgwyddo o ganlyniad i dwyll neu anwiredd twyllodrus.

8.3. Bydd ein cyfanswm atebolrwydd mewn contract, tort (gan gynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), camliwiad, adferiad neu fel arall, sy'n codi mewn cysylltiad â pherfformiad, neu berfformiad tebygol, ein rhwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, yn cael ei gyfyngu i'r Ffioedd Aelodaeth rydych wedi'u talu i ni yn y cyfnod 12 mis blaenorol. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled arbennig, anuniongyrchol, ganlyniadol neu economaidd bur, costau, difrod, ffioedd neu dreuliau.

8.4. Rhaid i chi gadw eiddo personol arnoch neu eu cadw mewn locer a ddarperir gennym ni. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled, difrod neu ladrad o unrhyw eiddo personol a ddeuir ar safle SBSP.

9. AMRYWIO TELERAU

9.1. Rydym yn cadw'r hawl i amrywio'r Cytundeb hwn, ac unrhyw reolau, ar unrhyw adeg, er mwyn adlewyrchu newidiadau sy'n berthnasol i reoli a gweithredu SBSP. Byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i roi rhybudd i chi cyn gwneud newidiadau drwy arddangos hysbysiad priodol yn SBSP, oni bai fod y newidiadau'n hanfodol am resymau iechyd a diogelwch neu'n hanfodol i ddiogelu ein buddiannau.

9.2. Os nad ydych yn derbyn y newidiadau arfaethedig ac os gallwch ddangos i'n boddhad rhesymol bod y newidiadau'n peri anfantais faterol i chi, cewch ganslo'r Cytundeb. Byddwn yn rhoi ad-daliad priodol o'r Ffi Aelodaeth ar gyfer y cyfnod o'r Cytundeb sy'n weddill yn achos cwsmeriaid sydd wedi talu ymlaen llaw. Nid yw eich hawl i derfynu'n berthnasol os gorfodwyd i ni gyflwyno'r newidiadau gan ddeddfwriaeth, rheoliad gan y llywodraeth neu awdurdod lleol neu unrhyw gorff cymwys arall.

10. GWYBODAETH BERSONOL

10.1. Rydym yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth yn eich Ffurflen Gais, ac unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei darparu i ni, er mwyn i ni allu darparu ein gwasanaethau i chi ac ymdrin â'ch ceisiadau.

10.2. Caiff yr wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i ni ei chasglu a'i phrosesu at ddibenion monitro a dadansoddi ein busnes, marchnata a chyfathrebu mewn cysylltiad â'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ni a rhai cwmnïau eraill. Gellir cyfathrebu â chi drwy e-bost neu'r post.

10.3. Gellir datgelu gwybodaeth bersonol hefyd i asiantau neu drydydd partïon a benodwyd gennym ni neu gan aelodau eraill o gwmnïau eraill i ymgymryd â gweithgareddau marchnata a chyfathrebu os ydych chi wedi nodi'r dewis hwn ar eich ffurflen aelodaeth. Cyfeiriwch at Bolisi Preifatrwydd SBSP am fanylion.

10.4. Mae gennych hawl i dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi ac i ofyn i ni gywiro camgymeriadau drwy ysgrifennu atom.

11. PWYNTIAU CYFFREDINOL

11.1. Os byddwn yn trosglwyddo unrhyw hawl neu atebolrwydd dan y cytundeb hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

11.2. Os bydd y manylion personol rydych wedi'u darparu i ni yn newid, rhaid i chi ysgrifennu atom i roi gwybod i ni. Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid cyfeiriad, tybir bod unrhyw gyfathrebiad wedi'i dderbyn gennych 5 diwrnod ar ôl i ni ei anfon.

11.3. Mae SBSP a'i feysydd parcio yn gyfleusterau dim ysmygu.

11.4. Os bydd anghytundeb wrth ddehongli rheolau SBSP, ein penderfyniad ni fydd yn derfynol. Drwy lofnodi'r aelodaeth, rydych chi'n cytuno i ufuddhau i'r Cytundeb hwn a'r holl reolau defnyddio.

11.5. Daw archebu a derbyniadau dan y Polisi Archebu a Derbyniadau llawn. Ar gyfer archebu sesiynau, mae gan SBSP bolisi tri rhybudd o ganlyniad i ddiffyg rhoi gwybod am ddiben i ganslo neu dorri'r cyfnod hysbysu, a pheidio â glynu at ganllawiau cyfleusterau fel y maent wedi'u harwyddo. Bydd pob rhybudd yn cael eu cyflwyno i Aelodau yn ysgrifenedig gyda'r trydydd yn cynnwys y posibilrwydd o derfynu aelodaeth.

11.6. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghydfod neu bryderon yn unol â'n Polisi Cwynion.

11.7. Gallwn gymryd camau yn eich erbyn yn unol â'n Polisi Gwahardd.

11.8. Yn ogystal:-

a) Ni chaniateir dod ag eitem neu sylwedd peryglus neu wenwynig i'r cyfleuster
b) Os oes gennych haint neu afiechyd heintus, ni chewch fynd i mewn i'r pwll nofio neu ardaloedd newid y pentref chwaraeon
c) Ni chaniateir baeddu neu lygru dŵr y pwll nofio
d) Ni chaniateir bwyta bwyd nac yfed diodydd yn SBSP os na chawsant eu prynu ar y safle, ar wahân i hydradu hanfodol a maetholion chwaraeon
e) Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan y rheolwr os hoffech dynnu lluniau neu wneud recordiad fideo
f) Rhaid cadw eich holl eiddo personol yn loceri SBSP oni hysbysir yn wahanol.
g) Mae holl amodau a thelerau defnyddio SBSP yn berthnasol am hyd eich aelodaeth. Tybir bod diffyg cydymffurfiaeth ag amodau a thelerau un parti sy'n arwain at wahardd aelod yn torri amodau a thelerau'r llall.
h) Ni ellir trosglwyddo aelodaeth Chwaraeon Abertawe. Y person a enwir ar y cais am aelodaeth yn unig gaiff ddefnyddio'r aelodaeth.
i) Mae rheolau unigol yn berthnasol i'r holl gyfleusterau unigol er iechyd a diogelwch yr holl ddefnyddwyr a staff. Mae'n rhaid glynu wrth y rhain bob amser.

Atodlen 1 - Cynlluniau Aelodaeth SBSP

Campfa a Dosbarthiadau i'r Cyhoedd DU	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy i'r Cyhoedd Hyblyg	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pwll a Mwy i'r Cyhoedd DU	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau i'r Cyhoedd Blynyddol	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy i'r Cyhoedd Blynyddol	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pasbort i Hamdden Hyblyg DU	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pasbort i Hamdden Campfa DU	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pasbort i Hamdden Pwll a Mwy Hyblyg	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pasbort i Hamdden Pwll a Mwy DU	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau Consesiynol Hyblyg DU	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Campfa a Dosbarthiadau Consesiynol DU	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy Consesiynol Hyblyg DU	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Phwll a Mwy Consesiynol DU	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau Consesiynol Blynyddol	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy Consesiynol Blynyddol	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr 1 Mis	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr Semester 1	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr Semester 2	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr Blynyddol	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr 1 Mis	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr Semester 1	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr Semester 2	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr Blynyddol	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr Dau Semester	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr Dau Semester	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**

Campfa a Dosbarthiadau i Fyfyrwyr 2 Fis	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy i Fyfyrwyr 2 Fis	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Campfa a Dosbarthiadau Didyniad Cyflog Misol i Staff Prifysgol Abertawe	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pwll a Mwy Didyniad Cyflog Misol i Staff Prifysgol Abertawe	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Pasbort i Hamdden Campfa a Dosbarthiadau Blynyddol	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Pasbort i Hamdden Pwll a Mwy Blynyddol	**Ar y Cyd (SU, WNPS)**
Nofio i'r Rheiny 60 oed a Hŷn DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr Hyblyg DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i'r Cyhoedd Hyblyg DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i'r Cyhoedd DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Nofio Hyblyg DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Nofio DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio Consesiynol Hyblyg DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio Consesiynol DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Ieuenctid Safonol 30 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Ieuenctid 30 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Ieuenctid Safonol 60 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Ieuenctid 60 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Oedolion Safonol 30 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Oedolion Consesiynol 30 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Oedolion 30 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Oedolion Safonol 60 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Oedolion Consesiynol 60 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Oedolion 60 Munud DU	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Teyrngarwch Nofio i'r Cyhoedd	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Teyrngarwch Nofio Consesiynol	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Teyrngarwch Nofio	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Teyrngarwch Nofio Adegau Tawel	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr 1 Mis	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr Semester 1	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr Semester 2	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr Blynyddol	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i Fyfyrwyr Dau Semester	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i'r Cyhoedd Blynyddol	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i'r Cyhoedd 6 Mis	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio i'r Rheiny 60 oed a Hŷn 6 Mis	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Nofio Blynyddol	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Pasbort i Hamdden Nofio 6 Mis	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio Consesiynol Blynyddol	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Nofio Consesiynol 6 Mis	**Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe**
Cerdyn Athletau Semester 1	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Cerdyn Athletau Semester 2	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**
Cerdyn Athletau Blynyddol	**Prifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe)**

Parc Chwaraeon Bae Abertawe
Swansea Bay Sports Park